RHONDDA CYNON TAF

*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
***RHONDDA CYNON TAF***
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**GWŶS I GYFARFOD O'R CYNGOR**

C.Hanagan
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach CF40 2XX

Dolen gyswllt: Emma Wilkins - Council Business Unit
(Emma.Wilkins@rctcbc.gov.uk)

**DYMA WŶS I CHI** i gyfarfod o **PWYLLGOR SAFONAU** yn cael ei gynnal yn **Hybrid** ar **DYDD LLUN, 22AIN EBRILL, 2024** am **10.00 AM.**

Caiff Aelodau nad ydyn nhw'n aelodau o'r pwyllgor ac aelodau o'r cyhoedd gyfrannu yn y cyfarfod ar faterion y cyfarfod er bydd y cais yn ôl doethineb y Cadeirydd. Gofynnwn i chi roi gwybod i Wasanaethau Democrataidd erbyn Dydd Iau, 18 Ebrill 2024 trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod, gan gynnwys rhoi gwybod a fyddwch chi'n siarad Cymraeg neu Saesneg.

## AGENDA

**Tudalennau**

### 1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â'r Cod Ymddygiad.

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm y mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

### 2. COFNODION

Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2024 yn rhai cywir.

**ADRODDIAD Y SWYDDOG MONITRO**

3. **OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU – CRYNODEB O'R CWYNION YN ERBYN AELODAU - 23 IONAWR 2024 - 31 MAWRTH 2024** **5 - 8**

Rhoi crynodeb i'r Aelodau o'r cwynion a wnaed yn erbyn Aelodau ac a gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr 'Ombwdsmon') am y cyfnod rhwng 23 Ionawr 2024 a 31 Mawrth 2024.

4. **PANEL DYFARNU CYMRU – PENDERFYNIADAU TRIBIWNLYS DIWEDDAR** **9 - 14**

Rhoi cyfle i'r Aelodau drafod penderfyniadau diweddar gan Banel Dyfarnu Cymru.

5. **FFORWM SAFONAU CENEDLAETHOL - ADBORTH O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 29 IONAWR 2024** **15 - 38**

Rhoi adborth i'r Aelodau o gyfarfod y Fforwm Safonau Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2024.

6. **Y NEWYDDION DIWEDDARAF AR LAFAR – OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU – ERTHYGLAU DIWEDDAR Y CYFRYNGAU MEWN PERTHYNAS Â GWEITHREDOEDD UN O'I SWYDDOGION** **39 - 56**

Rhoi'r newyddion diweddaraf i Aelodau yn dilyn erthyglau diweddar y cyfryngau ac ymddiswyddiad y Pennaeth Ymchwiliadau.

7. **MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

**Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu**